# Siarad am Ddyfodol Cymru

## Adroddiad Terfynol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru 2024

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales




Fersiwn crynodeb cymunedol

# Helo!

Ar hyd a lled Cymru, mae pobl yn ymuno â sgwrs am ddyfodol Cymru, oherwydd mae sut mae ein cenedl yn cael ei llywodraethu yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau.

Ystyr llywodraethu yw'r modd i reoli a chael y pŵer i wneud penderfyniadau.

# Mae Cymru'n wlad ddatganoledig

Mae datganoli yn golygu, yn lle bod yr holl bŵer gyda Llywodraeth y DU, mae rhai pwerau wedi cael eu trosglwyddo i lywodraethau Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru.

**Mae'n golygu bod rhai deddfau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud yng Nghymru, gan wleidyddion sydd wedi cael eu hethol gan bobl Cymru.**



# Senedd Cymru

Mae gan Gymru ei Senedd ei hun (Senedd Cymru) a Llywodraeth Cymru, gyda Phrif Weinidog yn cael ei ddewis gan yr aelodau etholedig. Mae'r Senedd yn deddfu dros Gymru ac yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau, yn cynnig cyfreithiau newydd ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael eu gweithredu. Mae'n penderfynu'r gyllideb ar gyfer y GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill.

Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y materion hyn yng Nghymru:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Addysg a hyfforddiant
- Llywodraeth Leol (Cynghorau)
- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd
- Trafnidiaeth
- Rhai trethi
- Chwaraeon a'r celfyddydau.

Mae rhai pethau'n cael eu rheoli gan Senedd a Llywodraeth y DU:

- Trethi a gwariant cyhoeddus
- Cyfiawnder a phlismona
- Amddiffyn
- Materion tramor
- Mewnfudo
- Polisi masnach
- Y Cyfansoddiad
- Darlledu.

# Dyfodol Cymru

Yn 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Gomisiwn Annibynnol**. Mae'r Comisiwn wedi adolygu cryfderau a gwendidau datganoli, darganfod beth mae pobl yn ei feddwl, ac archwilio'r opsiynau i wella dyfodol Cymru.

Comisiwn yw grŵp o bobl mae sefydliad neu lywodraeth yn ymddiried ynddo i ymchwilio i rywbeth.



**Mae'r adroddiad terfynol hwn yn dweud wrthych chi am rai o'n canfyddiadau a'n hargymhellion.**

## Amdanom ni

Mae'r Comisiwn Annibynnol hwn yn cael ei arwain gan yr Athro Laura McAllister a Dr Rowan Williams. Mae hefyd yn cynnwys naw comisiynydd o gefndiroedd gwahanol, sydd i gyd â safbwyntiau gwahanol. Rydym ni i gyd wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd ac i gynnal ymchwiliad teg.

## Ein nodau

- Darganfod barn pobl am y ffordd mae Cymru'n cael ei llywodraethu.
- Deall strwythurau'r llywodraeth ar draws gwledydd y DU a sut maen nhw'n gweithio.
- Gweld sut mae datganoli yn gweithio yng Nghymru.
- Canfod ffyrdd o gryfhau democratiaeth yng Nghymru.
- Archwilio'r opsiynau ar gyfer newid a fydd yn gwella bywydau pobl.

## Amserlen

**Yn 2021** — fe wnaeth gwaith y Comisiwn Annibynnol ddechrau.

**Mawrth 2022** — Fe wnaethom ni ddechrau casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phobl ledled Cymru.

**Rhagfyr 2022** — Fe wnaethom ni gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf.

**Yn 2023** — Fe wnaethom ni gasglu mwy o dystiolaeth ac ymgysylltu â mwy o bobl ledled Cymru.

**Ionawr 2024** — Ein hadroddiad terfynol a'n hargymhellion.

## Ein gwerthoedd

Mae ein holl waith yn seiliedig ar:

**Asiantaeth**: mae gan bawb y pŵer i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau mewn cymaint o ffyrdd â phosib.

**Cydraddoldeb a Chynhwysiant**: mae pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan.

**Atebolrwydd**: gall pawb weld sut mae pethau'n gweithio a dal y llywodraeth i gyfrif.

**Sybsidiaredd**: mae penderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos â phosib at y bobl sy'n cael eu heffeithio.

Y Comisiynwyr



# Cynnwys pobl

Roeddem ni am roi cymaint o gyfleoedd â phosibl i bobl gyfrannu.

Felly, fe wnaethom ni ddechrau 'sgwrs genedlaethol'.

Fe wnaethom ni siarad â gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr.

Cafwyd digwyddiadau ymgysylltu mewn **72** o leoedd gwahanol ar draws Cymru gyfan:

- Cymerodd **3,545** o bobl ran
- Cwblhaodd **2,327** arolwg byr
- Rhoddodd **600** eu e-bost am fwy o wybodaeth.

Yn 2022, fe wnaethom ni sefydlu ymgynghoriad ar-lein o'r enw Dweud eich Dweud: Have your Say. Cafwyd dros **2,500** o ymatebion.

Yn 2023, cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein arall ynghylch yr opsiynau am newid yng Nghymru. Roedd dros **1,025** o ymatebion.

Atebodd bron i **5,900** ein harolygon a'n pôl piniwn.

Fe wnaethom ni gynnal gweithdai gyda gwahanol grwpiau a fforymau.

Cynhaliom **17** sesiwn i gasglu tystiolaeth.

Fe wnaethom ni sefydlu **8** panel dinasyddion ledled Cymru. Roedd bob panel yn cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd a chanddynt safbwyntiau gwahanol.

Fe wnaethom ni siarad â grwpiau, aelodau o'r gymdeithas ddinesig, gweithwyr proffesiynol ac academyddion.

Fe wnaethom ni ffurfio partneriaeth gyda **11** o grwpiau cymunedol ledled Cymru.



Fe wnaethom ni edrych ar ymchwil a thystiolaeth gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caeredin. Cymerodd **1,596** o bobl 16+ oed ran mewn arolwg ar-lein a dros y ffôn gan Beaufort Research.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu Panel Arbenigol i roi cyngor i ni. Mae hwn yn grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigwyr mewn llywodraeth, cyllid a'r gyfraith. Fe wnaethon nhw ymchwilio i faterion allweddol i'n cynorthwyo ni, ac edrych ar beth rydyn ni'n ei wneud i sicrhau nad oeddem ni'n colli unrhyw beth pwysig.



# Prif ganfyddiadau'r Sgwrs Genedlaethol

Doedd llawer o bobl ddim yn teimlo'n ddigon hyderus nac yn ddigon gwybodus i ymuno yn y ddadl am newid Cymru.

Mae gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb mewn newid, yn enwedig mewn meysydd sy'n effeithio ar eu bywydau — y GIG, addysg, a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Nid yw llawer o bobl yn gweld gwahaniaeth rhwng gweithredoedd y llywodraeth a'r gyfundrefn sy'n rhoi'r pwer iddo i lywodraethu Cymru.

Mae credoau a daliadau gwleidyddol pobl yn dylanwadu ar yr hyn maen nhw'n meddwl yw'r ffordd orau ymlaen.

**Mae gweddill yr adroddiad yn ymdrin â 4 prif faes:**

1. **Gwella democratiaeth**
2. **Y berthynas â Llywodraeth y DU**
3. **Amddiffyn a chryfhau datganoli**
4. **Deall ein hopsiynau am y dyfodol**





# 1. Gwella democratiaeth

**Democratiaeth** — gwlad lle gall y bobl gymryd rhan a dewis eu llywodraeth drwy bleidleisio drosti.

## Canfyddiadau:

- Nid oes gan bobl ymddiriedaeth mewn prosesau democrataidd yng Nghymru a'r DU.
- Mae llawer o bobl yn hoffi'r hyn sydd wedi digwydd yng Nghymru ers datganoli, ond yn meddwl bod angen i ddemocratiaeth wella.
- Nid yw rhai pobl yn credu bod digon o ymgysylltu â dinasyddion.
- Mae pobl eisiau bod yn fwy gwybodus am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a sut y gallant gymryd rhan.
- Mae'r nifer sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn isel.
- Nid oes digon o wybodaeth am ddemocratiaeth yng Nghymru.
- Mae llawer o bobl yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o ddylanwad ym mhenderfyniadau'r llywodraeth.
- Mae angen adfer ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth.
- Nid yw'r cyhoedd yn gweld nac yn clywed digon am sut mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y cyfryngau.

## Diwygiadau'r Senedd

Mae newidiadau'n digwydd i'r Senedd:

- Yn 2026 bydd y Senedd yn cynyddu o **60** o aelodau i **96** i gynrychioli mwy o gymunedau a chryfhau datganoli.
- Bydd newidiadau i'r ffordd bydd aelodau'n cael eu hethol.





## Pleidleisio

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn bosibl ar gyfer:

- dinasyddion gwledydd eraill sydd â'r hawl i fyw yng Nghymru i bleidleisio
- pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed i bleidleisio mewn etholiadau i'r Senedd a chynghorau lleol.

Nid yw Llywodraeth y DU yn caniatáu hyn ar gyfer etholiadau ledled y DU, a all ei gwneud yn ddryslyd i bleidleiswyr, ond rydym ni'n credu bod dull Cymru yn well.

## Systemau i gefnogi democratiaeth

Mae gan Gymru lawer o ffyrdd i bobl gael dweud eu dweud mewn penderfyniadau, ond mae cyllidebau llai a llymder yn effeithio ar hyn.

Byddai arloesi democrataidd yn gwella democratiaeth. Dylen nhw fodloni'r canlynol:

- gweithio gyda'r systemau presennol
- bod yn hawdd i'w defnyddio i bawb
- grymuso pobl i gymryd rhan.

**Arloesi democrataidd** — prosesau a ffyrdd newydd i bobl gymryd rhan a dweud eu dweud.

## Cyfansoddiad i Gymru

Mae strwythur y DU yn golygu na allwn ni greu cyfansoddiad i Gymru. Ond fe allai fod yn bosib llunio datganiad 'wedi'i wneud yng Nghymru' am sut mae Cymru'n cael ei llywodraethu, drwy gael dinasyddion i gymryd rhan. Gallai hyn fod yn gam cyntaf tuag at gyfansoddiad.

**Cyfansoddiad** — egwyddorion a deddfau cenedl, ei phwerau a'i dyledswyddau a hawliau ei phobl.

## Argymhellion

1. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau arloesedd democrataidd ac ymgysylltu â'r gymuned.
2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dinasyddion wrth ddrafftio datganiad 'wedi'i wneud yng Nghymru' o egwyddorion llywodraethiant ar gyfer Cymru.
3. Dylai'r adolygiad arfaethedig o Ddiwygiadau'r Senedd ganolbwyntio ar sut yr effeithiodd y newidiadau ar bleidleiswyr.



## 2. Y berthynas â Llywodraeth y DU

### Canfyddiadau:

- Mae llawer o bobl yn credu ei bod yn bwysig i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio'n dda gyda'i gilydd, ond nid yw rhai pobl yn credu y gallant.

- Mewn rhai meysydd byddai ymestyn datganoli yn gwella atebolrwydd a darpariaeth gwasanaethau.

- Nid yw Llywodraeth y DU bob amser yn parchu datganoli ac mae wedi gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar gyfrifoldebau'r Senedd heb ei chytundeb.

- Llywodraeth y DU sy'n penderfynu pryd a sut maen nhw'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud hi'n anodd creu ymddiriedaeth a pherthynas dda.

- Llywodraeth y DU a'r Senedd sy'n penderfynu pwerau a chyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Hyd yn oed os oes tystiolaeth gref o blaid newid, gall Llywodraeth y DU ei anwybyddu.

- Mae rheolau Trysorlys y DU yn ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru reoli ei chyllideb yn effeithiol.

- Mae Brexit wedi achosi problemau ac mae'r setliad datganoli weithiau'n teimlo'n fregus ac ansefydlog.

- Llywodraeth y DU sy'n penderfynu'r cyllidebau ar gyfer y gwledydd datganoledig, ond mae hyn yn seiliedig ar gyllideb Lloegr, yn hytrach nag edrych ar beth sydd ei angen ar y gwledydd datganoledig.

- Mae pobl eisiau i lywodraethau weithio gyda'i gilydd — nid 'sgorio pwyntiau gwleidyddol' neu 'bod yn wahanol er mwyn bod yn wahanol'.



## Cydlywodraethu

Mae systemau i helpu Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig i gydweithio, a datrys problemau yn deg. Mae Grwpiau Rhyng-Weinidogol yn cefnogi cydlywodraethu ac yn meithrin ymddiriedaeth rhwng y llywodraethau. Ond mae yna broblemau:

- diffyg cyfranogiad gan y Prif Weinidog
- diffyg ymrwymiad gan rai o Weinidogion y DU
- diffyg paratoi ar gyfer cyfarfodydd.

**Cydlywodraethu** — gweithio gyda'n gilydd i gael y canlyniadau gorau i bob cenedl a'r DU gyfan.

## Confensiwn Sewel

Mae Confensiwn Sewel yn golygu, os yw Senedd y DU eisiau newid cyfraith mewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, ni ddylai wneud hynny heb gydsyniad y Senedd.

Fodd bynnag, mae Senedd y DU yn sofran, felly gall dorri'r Confensiwn Sewel a gwneud newidiadau beth bynnag. Ers 2016, mae hyn wedi digwydd sawl gwaith. Mae llawer o bobl yn credu na ellir adfer Confensiwn Sewel oni bai ei fod yn dod yn gyfraith newydd.

## Cyllid a Threth

Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar y cyllid ar gyfer y gwledydd datganoledig.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn i Drysorlys y DU os yw am wneud newidiadau i drethi neu wneud treth newydd i Gymru. Gall hyn achosi oedi ac atal newidiadau a allai fod o fudd i Gymru.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud rhai newidiadau i'w pwerau trethu, pwerau benthyca a lefelau ariannu fel bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu cyllideb. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud y newidiadau hyn hefyd.

## Argymhellion

4. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig i'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod Senedd San Steffan yn ymgorffori systemau cydlywodraethu yn gyfraith.
5. Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i gynnig deddf yn Senedd San Steffan. Byddai'r gyfraith hon yn gofyn am gydsyniad y cenhedloedd datganoledig ar gyfer unrhyw newidiadau i'w pwerau. Byddai eithriadau yn cael eu cytuno am resymau fel rhwymedigaethau rhyngwladol, amddiffyn, diogelwch cenedlaethol, neu bolisi macro-economaidd.
6. Dylai Llywodraeth y DU newid rhai rheolau ar reoli cyllideb Llywodraeth Cymru.



# 3: Amddiffyn a chryfhau datganoli

Mae mwy o bwerau a meysydd y gallai Cymru eu rhedeg ond ar hyn o bryd maen nhw'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU — Fel y rhain:

Fe wnaethom ni edrych ar dystiolaeth, siarad ag arbenigwyr a chanfod bod gan bobl farn wahanol ynghylch a ddylid datganoli'r rhain.

## Canfyddiadau:

- Mae rhai pobl yn credu bod gan Lywodraeth y DU bwerau mewn gormod o feysydd sy'n effeithio ar Gymru.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl o blaid datganoli mwy o bwerau.
- Nid yw llawer o bobl yn gwybod beth mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano.
- Mae rhai pobl yn erbyn y datganoli sydd gennym ni eisoes.
- Mae rhai pobl yn meddwl na fydd datganoli gwell yn delio â phroblemau, a dylem ni ganolbwyntio ar feithrin perthynas â Llywodraeth y DU.
- Os bydd mwy o feysydd yn cael eu datganoli, bydd angen digon o arian gan Lywodraeth y DU i dalu am y cyfrifoldebau hynny.

## Darlledu

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ddarlledu, ond mae cysylltiadau agos a chwaraeon, addysg, sgiliau a'r Gymraeg sy'n feysydd datganoledig. Mae llawer o bobl ac arbenigwyr yn credu y dylai Cymru gael mwy o ddylanwad a grym dros ddarlledu.

## Hawliau cyflogaeth ac amddiffyniadau

Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am hawliau cyflogaeth ac amddiffyniadau. Fe wnaethom ganfod nad oes barn gref ar hyn:

- mae undebau llafur yn rhanedig ynghylch a ddylid datganoli pwerau ar hawliau cyflogaeth ac amddiffyniadau
- y flaenoriaeth i'r gweithlu yw cadw hawliau ac amddiffyniadau a sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi.

## Ynni

Mae llawer o newidiadau yn y farchnad ynni ac mae'n bwysig bod gan Gymru lais ynglŷn â sut mae'n datblygu. Fe wnaethom ganfod nad yw Llywodraeth y DU bob amser yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddatblygiadau pwysig sy'n effeithio ar Gymru.

## Cyfiawnder a phlismona

Mae cyfiawnder a phlismona wedi'u datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid yng Nghymru. Fe wnaethom ganfod tystiolaeth y gallai datganoli:

- sicrhau canlyniadau gwell i bobl
- rhoi gwell gwerth am arian
- cynyddu tryloywder a dod â mwy o atebolrwydd.

Gyda chynllunio da, ni fyddai datganoli yn amharu ar wasanaethau.

## Trafnidiaeth

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am adeiladu a chynnal a chadw ffyrdd, a rhai rhannau o drafnidiaeth gyhoeddus.

Ond mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am:

- awyrennau a thrafnidiaeth awyr
- rhai gwasanaethau rheilffordd a rhwydweithiau trenau
- cludo.

Fe wnaethom ganfod bod problemau gyda'r gwasanaethau rheilffordd. Nid yw nifer o'r penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn deg i Gymru ac maen nhw'n gwneud gwasanaethau rheilffyrdd yn waeth nag y gallent fod.

Gallai datganoli gwasanaethau rheilffyrdd yn llawn wella trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, cyn belled â bod y cyllid ar waith hefyd.

## Budd-daliadau lles

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am rai budd-daliadau lles fel Budd-dal y Dreth Gyngor a phrydau ysgol am ddim.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y gweddill. Maen nhw'n penderfynu ar lefel y taliadau mae pobl yn eu derbyn a p'un a allant eu hawlio.

Fe wnaethom ganfod:

- bod gan Yr Alban a Gogledd Iwerddon mwy o bŵer dros fudd-daliadau lles na Chymru
- y gallai datganoli helpu pobl yng Nghymru, ond dim ond os oes gan Gymru fwy o rym dros ei chyllideb, ei threthi ac opsiynau ariannu eraill.

## Argymhellion

7. Darlledu — Dylai Llywodraeth Cymru a'r DU gytuno ar ffyrdd i Gymru gael llais cryfach.
8. Ynni — Dylai Llywodraeth Cymru a'r DU sefydlu grŵp arbenigol i gynghori ar ddiweddaru'r setliad datganoli a chydlywodraethu ynni.
9. Cyfiawnder a phlismona — Dylai Llywodraeth y DU gytuno i ddatganoli cyfrifoldeb am gyfiawnder a phlismona yn llawn i Gymru.
10. Gwasanaethau Rheilffordd — Dylai Llywodraeth y DU gytuno i ddatganoli gwasanaethau rheilffyrdd, gan gynnwys seilwaith, gyda chyllid teg a chydlywodraethu ar wasanaethau trawsffiniol.



# 4: Deall ein hopsiynau am y dyfodol

Rydym ni wedi bod yn edrych ar ddyfodol Cymru a'r 3 opsiwn posibl sef:

**Atgyfnerthu datganoli** | **Cymru mewn DU ffederal** | **Cymru annibynnol**

Mae'r llywodraeth a chymdeithas yn newid yng Nghymru, fel yn rhannau eraill y DU. Gallai fod newidiadau yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon a fyddai'n effeithio arnom ni yng Nghymru.

Mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl am yr hyn rydyn ni ei eisiau ar gyfer dyfodol Cymru.

Ni wnaethom ni ofyn i bobl am ddod â datganoli i ben, ond fe wnaeth rhai pobl grybwyll hyn yn ein harolwg ar-lein. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebion broblemau gyda gwasanaethau neu'n anghytuno â phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Roedd ambell un o blaid yr Undeb ac yn teimlo bod datganoli yn ei danseilio.

**Nid ydym yn argymell pa opsiwn sydd orau i Gymru. Mae hynny i fyny i bobl Cymru a'r hyn maen nhw ei eisiau ar gyfer eu dyfodol.**







## Opsiwn 1: Atgyfnerthu datganoli

Byddai hyn yn ehangu pwerau'r Senedd a'u sefydlu'n gadarn. Byddai'n sicrhau bod y pwerau sydd gan Gymru i wneud ei phenderfyniadau ei hun yn cael eu gwarchod.

Byddai'r opsiwn hwn **yn:**

- rhoi mwy o awdurdod a sefydlogrwydd i'r Senedd a Llywodraeth Cymru
- sicrhau bod mwy o benderfyniadau sy'n effeithio Cymru yn cael eu gwneud gan y Senedd a Llywodraeth Cymru.
- cadw'r pwerau sy'n effeithio ar economi Cymru yn ddigyfnewid.

**Ni** fyddai'r opsiwn hwn **yn:**

- gwneud refferendwm yn angenrheidiol
- cymryd llawer o adnoddau neu amser i wneud
- newid popeth sy'n gwneud datganoli'n agored i newid gan Senedd y DU
- newid yr opsiynau economaidd i Gymru.

## Canfyddiadau:

- Mae gwell datganoli yn cael ei ystyried fel yr opsiwn risg isaf i Gymru.
- Hwn fyddai'r cam nesaf ymlaen o'r hyn sydd gennym ni.
- Byddai hyn yn gwneud penderfyniadau yn agosach at y bobl sy'n derbyn gwasanaethau.
- Gallai hyn helpu i sicrhau bod pwerau'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn cael eu parchu fwy gan Lywodraeth y DU.
- Mae rhai pobl yn ystyried hyn yn negyddol gan ei fod yn gwreiddio'r Senedd a Llywodraeth Cymru ymhellach.
- Roedd rhai pobl yn ei chael hi'n anodd rhoi barn am eu bod nhw'n teimlo bod ganddyn nhw ddiffyg gwybodaeth am ddatganoli.





## Opsiwn 2: Strwythur ffederal

Newid cyfansoddiad y DU fel bod grym yn cael ei rannu rhwng Senedd y DU a'r Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Byddai'r opsiwn hwn **yn:**

- cynnwys newidiadau i gyfansoddiad y DU gyfan, ac felly mae angen cefnogaeth pob rhan o'r DU
- golygu y byddai Senedd y DU ond yn gyfrifol am faterion ffederal, fel amddiffyn neu bolisi tramor
- ei gwneud yn ofynnol cael Senedd a Llywodraeth ar wahân ar gyfer Lloegr (neu sawl un ar gyfer rhanbarthau o Loegr)
- golygu newid sut mae llywodraethau ar draws y DU yn codi ac yn dyrannu trethi
- gofyn am benderfyniadau ar ba lywodraeth sy'n gwneud beth, a allai fod yn wahanol i nawr
- cadw'r Undeb yn gyfan a chynnal sefydlogrwydd

**Ni** fyddai'r opsiwn hwn **yn:**

- gyflym neu'n hawdd i'w wneud
- achosi gormod o aflonyddwch tymor byr i ffiniau neu'r economi
- newid yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at economi gymharol wan yng Nghymru.



## Canfyddiadau:

Doedd y rhan fwyaf o bobl ddim yn hoffi'r opsiwn hwn — roedd yn cael ei ystyried yn ddrud ac yn rhy gymhleth.

Ar ddechrau ein sgyrsiau gyda'r paneli dinasyddion roedd hyn yn boblogaidd, ond wrth i ni fynd ymhellach i mewn iddo, nid oedd pobl yn credu ei fod yn bosibl.

Byddai angen i bob un o'r pedair gwlad weithio gyda'i gilydd. Byddai maint Lloegr o'i gymharu â gwledydd eraill y DU yn effeithio ar sut y gallai DU ffederal weithio.

Roedd gan bobl lawer o wahanol safbwyntiau ynghylch sut y gallai hyn weithio a sut y gellid rhannu pwerau.

Mae barn pobl am yr Undeb yn effeithio sut maen nhw'n teimlo am yr opsiwn hwn. Ar hyn o bryd nid yw'n ymddangos mai dyna'r hyn mae pobl yn yr Alban, Gogledd Iwerddon na Lloegr eisiau digwydd.

## Opsiwn 3: Annibyniaeth

Gwneud Cymru yn wladwriaeth sofran, yn annibynnol o'r DU.

Byddai'r opsiwn hwn **yn:**

- gwneud Cymru yn wlad sofran a allai wneud cais i ymuno â'r Cenhedloedd Unedig
- golygu bod angen i drethdalwyr Cymru ariannu'r holl wasanaethau cyhoeddus a benthyca'r llywodraeth yng Nghymru
- golygu bod angen i Gymru sefydlu ffyrdd newydd o weithio gyda gweddill y DU a'r byd
- golygu bod angen cytundebau newydd ar ffiniau a masnach.
- cyflwyno'r lefel uchaf o risg.

**Ni** fyddai'r opsiwn hwn **yn:**

- gyflym neu'n hawdd i'w wneud
- arwain at wobrwyon tymor byr – gallai gymryd degawdau i'r gwelliannau gael eu teimlo
- effeithio ar sut mae gweddill y Deyrnas Unedig yn cael ei rhedeg.





## Canfyddiadau:

➡ Roedd y rhan fwyaf o bobl a wnaeth yr arolwg ar-lein fwyaf cyfforddus yn siarad am annibyniaeth.

➡ Mae'r rhan fwyaf o bobl yn deall beth fyddai annibyniaeth yn ei olygu ond nid ydynt wedi ei ystyried yn fanwl, er enghraifft, yr effaith ar ffiniau, arian cyfred neu gyllid.

➡ Mae rhai pobl yn meddwl y gallai wella cyllid Cymru, mae rhai yn meddwl y byddai'n gwneud pethau'n llawer gwaeth.

➡ Mae yna farn gref iawn ar hyn ar y ddwy ochr.

➡ Mae rhai pobl yn credu mai annibyniaeth yw'r ffordd orau o wella economi Cymru a mynd i'r afael â materion fel tlodi, ond y bydd newidiadau yn cymryd amser hir iawn i gael effaith.

➡ Mae rhai pobl yn cefnogi annibyniaeth oherwydd:

- am eu teimladau tuag at Lywodraeth y DU
- sut mae Cymru wedi cael ei thrin yn y gorffennol ac yn cael ei thrin nawr.

## Camau nesaf

Mae ein hargymhellion yn bethau y mae angen eu gwneud yn awr i wneud i'r hyn sydd gennym weithio'n iawn. Mae hyn yn galluogi dinasyddion i ddewis 'dim newid'.

Nid ydym yn gwneud argymhelliad ar gyfer y dyfodol, gan mai mater i ddinasyddion yw penderfynu beth yw eu blaenoriaethau ar gyfer dyfodol Cymru a pha lefel o risg y maent am ei chymryd wrth estyn am y cyfleoedd a gynigir gan bob opsiwn.

Mae pob opsiwn yn cynnwys **cryfderau, gwendidau, risgiau a chyfleoedd**. Dydyn nhw ddim yn statig. Gall pob opsiwn ddod yn fwy posibl neu'n llai posibl yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn y dyfodol.

**Mae'n bwysig parhau i siarad ac ymgysylltu â phobl ledled Cymru fel y gallwn ni baratoi ar gyfer y dyfodol.**

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran ac a ymunodd yn y sgwrs.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru





